

PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2019

YN BRESENNOL: Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones
Y Cynghorydd Robert LI Jones

Yn cynrychioli'r Cyngorau Tref/Cymuned

Mr Gordon Warren

Aelod Annibynnol

Dr Teleri M Jones

WRTH LAW: Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgor (SC)

YMDDIHEURIADAU: Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019 fel rhai cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd.”

4 TYNNU RHESTR FER O YMGEISWYR AR GYFER RÔL AELODAU ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU, A PHENDERFYNU AR Y BROSES GYFWELD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar y broses ddethol statudol ar gyfer penodi pedwar Aelod Annibynnol newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

Trafododd y Panel y ceisiadau a dderbyniwyd yn unol â'r broses tynnu rhestr fer ac yn erbyn y meini prawf penodol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:-

- Rhoes y Panel Dethol sylw i bob cais a llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld.
- Trafododd y Panel y cwestiynau y byddant yn eu gofyn yn y cyfweiliad a'u cadarnhau, a derbyn hefyd y matrices sgorio a gyflwynwyd.
- Cytunodd y Panel wahodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer am gyfweiliad ar ddyddiad ac amser i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.50 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS
CADEIRYDD**